Cyfarfod Gweinidogol Ieithoedd Brodorol, Lleiafrifol a Llai eu Defnydd

20 Hydref 2023, Jersey

Datganiad

Cynhaliodd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig gyfarfod Gweinidogol Ieithoedd Brodorol, Lleiafrifol a Llai eu Defnydd heddiw yn Jersey. Cyn y Cyfarfod Gweinidogol, cymerodd y Gweinidogion a'r swyddogion ran yng nghynhadledd *Jersey Language Policy for Education Impact Event'*a drefnwyd gan Lywodraeth Jersey. Mae rhestr lawn o'r Gweinidogion a gymerodd ran wedi'i hatodi.

Trafod Gweithgarwch y Grŵp Gwaith

Trafododd y Gweinidogion Adroddiad Polisi 2023 y Grŵp Gwaith Ieithoedd Brodorol, Lleiafrifol a Llai eu Defnydd sy'n amlinellu'r gwaith a wnaed gan swyddogion dros y blynyddoedd diwethaf. Diolchodd y Gweinidogion i swyddogion am baratoi'r papurau, gan gytuno eu bod yn dangos pa mor werthfawr yw cael yr holl Aelod-weinyddiaethau yn rhan o'r Grŵp Gwaith. Wrth drafod, tynnodd y Gweinidogion sylw at bwysigrwydd creu amodau sy'n galluogi defnyddio Ieithoedd Brodorol, Lleiafrifol a Llai eu Defnydd, ac ystyriwyd nifer o fentrau perthnasol sy'n digwydd ar draws Aelod-weinyddiaethau'r Cyngor Prydeinig-Gwyddelig. Bu'r Gweinidogion hefyd yn ystyried y cysylltiadau rhwng polisi Blynyddoedd Cynnar a chaffael Ieithoedd Brodorol, Lleiafrifol a Llai eu Defnydd, gan dynnu sylw at ddigwyddiad ar y cyd a gynhaliwyd yn ystod 2021.

Blaengynllun Gwaith y Dyfodol

Bu'r Gweinidogion hefyd yn trafod Blaengynllun Gwaith arfaethedig y Grŵp Gwaith Ieithoedd Brodorol, Lleiafrifol a Llai eu Defnydd. Gan gytuno bod hwn yn faes y dylai Aelod-weinyddiaethau barhau i gydweithio arno drwy'r Cyngor Prydeinig-Gwyddelig, cytunodd Gweinidogion y dylai'r Blaengynllun Gwaith ar gyfer Ieithoedd Brodorol, Lleiafrifol a Llai eu Defnydd ar gyfer 2023-35 ganolbwyntio ar dair thema:

- Defnydd Cymdeithasol o Ieithoedd Brodorol, Lleiafrifol a Llai eu Defnydd;
- Seilwaith Ieithyddol; a
- Diwylliant.

Nododd Gweinidogion y byddai Cyfarfod Gweinidogol nesaf Ieithoedd Brodorol, Lleiafrifol a Llai eu Defnydd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig yn cael ei gynnal gan Lywodraeth Guernsey.

Ysgrifenyddiaeth y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig
20 Hydref 2023

Rhestr o Gynrychiolwyr Gweinidogol

Llywodraeth Iwerddon	Patrick O'Donovan TD, Minister of State for the Gaeltacht
Llywodraeth Ynys Manaw	Claire Christian MHK, Political Member for Education, Sport and Culture
Llywodraeth Jersey	Kirsten Morel, Deputy Chief Minister and Minister for Economic Development, Tourism, Sport and Culture
Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon	Jenny Gilruth MSP, Cabinet Secretary for Education and Skills
Llywodraeth yr Alban	Jacob Young MP, Parliamentary Under Secretary of State (Levelling Up)
Llywodraeth y DU	Jeremy Miles MS, Minister for Education and Welsh Language
	Deputy Andrea Dudley-Owen, Minister for Education, Sport & Culture
Llywodraeth Cymru	